



Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth y DU (y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol):

'Darparu yn y Dyfodol ar gyfer Dioddefwyr a'u Plant mewn Gwasanaethau Cam-drin Domestig o fewn Llety (Lloegr)'

Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasnanethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroseswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth, a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws wasnanethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treilau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (*SEEdS*), sy'n grymuso

¹ Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (*DASU*), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (*RASASC*) Gogledd Cymru.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 72 WWA response to UK Gov - accommodation based support - FINAL (1).docx



goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddu.

Rydym ni hefyd yn cyflewni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch cynigion y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol am ddull newydd o ddarparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a'u plant mewn "gwasanaethau o fewn llety" yn Lloegr.

Nid yw Cymorth i ferched Cymru fel arfer yn ymateb i ymgynghoriadau sy'n gyfyngedig i Loegr; fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau cymorth o fewn llochesau a gwasanaethau cam-drin domestig eraill yn y trydydd sector arbenigol, sydd hefyd yn cael eu hadolygu yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig rhwydwaith hanfodol o ddarpariaeth ledled Cymru, Lloegr a gweddill y DU a thu hwnt. O ystyried ein pedwar degawd o waith ar safonau ansawdd, modelau gwasanaeth a darpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru, mae'r ymateb hwn yn nodi ein hystyriaethau allweddol ar y cynigion a nodir gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

O fewn yr ymgynghoriad rydym yn falch o weld bod y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi edrych ar Gymru fel enghraifft o sut i osod dyletswyddau statudol ar awdurdodau er mwyn darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a'u plant. Croesawn hefyd ei fod yn yn cydnabod bod amrywiaeth o gymorth o fewn llety yn hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion pob goroeswr yn cael eu diwallu.

Fodd bynnag, rydym yn annog dull cyd-drefnus a chydgyssylltiedig o ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol hanfodol fel rhwydwaith o ddarpariaeth ledled Lloegr a Chymru, er mwyn sicrhau nad yw goroeswyr camdriniaeth yn wynebu loteri cod post mwyach wrth gael mynediad at ddioglewch, gwasanaethau a chymorth.

Materion allweddol y mae'n rhaid i unrhyw adolygiad o wasanaethau a chymorth cam-drin domestig fynd i'r afael â nhw:

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA

Translation 72 WWA response to UK Gov - accommodation based support - FINAL (1).docx



Diffiniad:

Er bod yr ymgynghoriad yn cydnabod yr angen am weithwyr arbenigol, pryderwn am y defnydd o'r term 'eang' (wrth gyfeirio at ddarparwyr cymorth) yn yr ymgynghoriad, term a allai gael ei ddehongli gan awdurdodau lleol i olygu gwasanaeth generig. Mae'n peri pryder bod y diffiniadau o wasanaethau 'o fewn llety', fel y saif ar hyn o bryd, yn aneglur. Mae'n hanfodol bod diffiniadau o **wasanaethau o fewn llety**, sy'n wahanol i ddarpariaeth generig, yn cael eu cynnwys. Gallai hyn ddeillio o ddiffiniad 'Llwybrau at Gymorth' ('Routes to Support') y DU o wasanaethau o fewn llochesau. Mae'n hanfodol hefyd bod y term "arbenigol" yn cael ei ymgorffori. Er enghraifft, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â'r sector a arweiniodd at gynnwys diffiniad o wasanaethau arbenigol yng Nghantlawiau Statudol Cymru ar Gomisiynu: [Wales Statutory Commissioning Guidance](#).

Adnoddau:

Nid oes digon o fanylion yn yr ymgynghoriad ynghylch sut y bydd y dylestwyddau a'r model arfaethedig yn cael eu hariannu, na beth fyddai'r cyfwerthedd i Gymru pe bai cynnydd yn yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu i ddarparu'r model newydd hwn.

Mae'r amcangyfrif o £90miliwn y flwyddyn yn annhebygol o gwrdd â chost darpariaeth arbenigol ar draws Lloegr, ac nid oes unrhyw eglurder yn yr ymgynghoriad ynghylch sut y bydd gwasanaethau arbenigol yng Nghymru yn derbyn adnoddau diogel.

Argymhellwn yn gryf bod angen i Whitehall ac adrannau Llywodraeth Cymru gydweithio i gyfuno adnoddau o'r adrannau hynny sy'n cronni arbedion costau o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau o fewn llochesau yn lleol ac ar draws y ddwy wlad.

Er bod Cymru eisoes yn cyflawni llawer o'r disgwyliadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer awdurdodau lleol Lloegr, a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn, nid yw'r gwaith o weithredu'r dylestwyddau statudol yng Nghymru wedi'i gefnogi'n ddigonol gan adnoddau er mwyn eu cyflwyno'n lleol. Bu'r sector arbenigol yng Nghymru yn galw am flynyddoedd am gyllid cynaliadwy diogel ar gyfer gwasanaethau, ac er bod hyn yn ymrwymiad yn Strategaeth Llywodraeth Cymru (2016), nid yw wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

Mae'r ymgynghoriad, yn gwbl briodol, yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu cymorth i'r holl ddiodefwyr a'u plant ac ymateb i anghenion grwpiau amrywiol, gan gynnwys goroeswyr anabl, er enghraifft. Mewn adroddiad² diweddar ar y cyd rhwng Cymorth i Ferched Cymru ac Anabledd Cymru, tynnwyd sylw gennym at y pryder gan oroeswyr a'n haelodaeth o wasanaethau arbenigol ar draws Cymru am yr angen am fwy o lety hygyrch ar gyfer goroeswyr anabl cam-drin domestig (a mathau

² <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/WWA-and-Disability-Wales-2019-report-Final-ENG.pdf>



eraill o drais yn erbyn menywod). Nid yw'r ymgynghoriad yn egluro sut y caiff goroeswyr anghenion lluosog sy'n wynebu gwahaniaethu ac anfanteision difrifol a niferus, eu cefnogi.

Mae'n rhaid i adnoddau fod yn ganolog i unrhyw ddyletswyddau newydd er mwyn sicrhau bod anghenion pob menyw a phlentyn yn cael eu diwallu, gan gynnwys, er enghraifft, goroeswyr duon a lleiafrifol, goroeswyr LGBT, goroeswyr anabl a byddar: mae'n rhaid i wasanaethau arbenigol gael digon o adnoddau i ddiwallu eu hanghenion. Dylid rhoi ystyriaeth – fel yng Nghymru – i gomisiynu rhanbarthol neu draws-awdurdod, ac mae hefyd yn bwysig sicrhau y cedwir elfen o gyllido cenedlaethol er mwyn sicrhau darpariaeth ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i gynigion gynnwys ymrwymadau i ddarparu cronfeydd diogel a chynaliadwy sydd wedi'u neilltuo'n lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys yn benodol ddarpariaeth llochesau 'gan ac ar gyfer' y cymunedau a gaiff eu cefnogi ganddynt.

Rydym yn adleisio pryderon menywod mudol a lleiafrifol, a'n gwasanaethau sy'n aelodau ynghyd â'n gwasanaethau ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sy'n gwybod bod y gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ac ar gyfer y cymunedau a wasanaethir ganddynt yn wynebu heriau ychwanegol i sicrhau cymorth arbenigol a'i ddarparu mewn modd cynaliadwy ar gyfer cymunedau duon a lleiafrifol. Rydym hefyd yn dal i bryderu, ynghyd â'n cydweithwyr yn Lloegr, nad oes unrhyw sôn o fewn yr ymgynghoriad am sut y darperir gwasanaeth a chymorth cam-drin domestig i oroeswyr sydd, oherwydd eu statws mewn fudo annigol, "heb hawl i gael arian cyhoeddus". Mae llawer o oroeswyr yn wynebu'r dewis plaen o aros gyda'u camdriniwr neu wynebu bod yn ddiymgeledd, a darparwyd degawdau o dystiolaeth i San Steffan yn amlinellu'r risgiau sylweddol ychwnaegol a'r cam-drin eilaidd pellach y mae nifer o fenywod mudol yn ei wynebu yn nwylo system mewn fudo anghyfiawn. Mae'n siomedig nad yw menywod mudol, sydd wedi goroesi camdriniaeth ac sydd â statws annigonol, yn cael eu cam-drin ddwywaith gan y system sy'n honni ei bod yn eu hamddiffyn.

Comisiynu:

Mae Cymru wedi cyflwyno Byrddau Strategol rhanbarthol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y disgwylir eisoes iddynt gwblhau asesiadau o anghenion rhanbarthol a thraws-awdurdod er mwyn llywio strategaethau a chynlluniau comisiynu. Yng Nghymru, mae rhwymedigaeth gyfreithiol i gyhoeddi'r strategaethau hyn o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ac ategir hyn gan Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol statudol a chanllawiau statudol i 'ofyn a gweithredu' ar draws y sector cyhoeddus datganoledig. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol yn deillio o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus i wella eu dull o adnabod ac ymateb i gam-drin, sy'n rhaid ei ystyried wrth gomisiynu a chynnal gwasanaethau arbenigol.

Mae gennym hefyd ganllawiau comisiynu statudol Cymru ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sydd heb gael effaith gadarnhaol arwyddocaol ar lawr gwlad eto. Rydym hefyd yn wynebu heriau pan fo'r canllawiau comisiynu yn annog dull

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA

Translation 72 WWA response to UK Gov - accommodation based support - FINAL (1).docx



cydweithredol, wedi'i lywio gan safonau ansawdd ac anghenion lleol, tra bod yn rhaid i'r comisiynywyr gydymffurfio â thendro cystadleuol. Hyd nes yr eir i'r afael â'r cysondeb hwn a hyd nes y dyrennir digon o adnoddau diogel a chynaliadwy i wasanaethau arbenigol, bydd gwasanaethau cam-drin domestig yn parhau i wynebu heriau gyda threfniadau ariannu a chomisiynu yn lleol.

Plant:

Croesawn ymrwymiadau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn diwallu anghenion cymorth plant a phobl ifanc. Pryderwn yn fawr am y 'loteri cod post' o ran y ddarpariaeth ar gyfer y gwaith hwn ar draws Cymru a rhwng Cymru a Lloegr. Eisoes rydym yn wynebu bwlch sylweddol rhwng bwriad polisi Deddf/Strategaeth Genedlaethol Cymru a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau ar draws Cymru ar gyfer goroeswyr sy'n blant.

Mae hyn er gwaethaf y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 sy'n cydnabod bod plant a phobl ifanc yn ddiodefswyr cam-drin domestig, a Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 – 2021³ sy'n cydnabod y gall bod yn dyst i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc ac y gall effeithio ar eu diogelwch, ar eu hiechyd a'u lles ac ar eu cyrhaeddiad addysgol.

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru eisoes yn adrodd bod y cyllid ar gyfer darpariaeth i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig yn dameidiog ac yn anghyson, ac nid oes gan lawer o wasanaethau cam-drin domestig gyllid penodol i gefnogi darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Pryderwn y bydd y bwlch ariannu hwn hyd yn oed yn fwy amlwg os nad oes cyfatebiaeth rhwng yr adnoddau a ddyrennir i Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig ac i gefnogi diodefswyr trwy'r system gyfiawnder yng Nghymru.

Trosolwg cenedlaethol ehangach a mecanweithiau deddfwriaethol/annedfwriaethol:

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn y cyhoeddiad y bydd disgwyl i awdurdodau lleol yn Lloegr ganiatáu tenantiaeth oes i ddiodefswyr cam-drin domestig pan oedd ganddynt denantiaeth oes yn y gorffennol. Unwaith eto, dim ond ar gyfer Lloegr y caiff hwn ei ystyried ar hyn o bryd a thra bod deddfwriaeth tai yng Nghymru yn darparu amddiffyniadau i oroeswyr mewn ffyrdd eraill (mae cam-drin domestig yn angen blaenoriaethol, caiff deddfwriaeth ei phasio cyn hir a fydd yn caniatáu i landlordiaid dargedu drwgweithredwyr ar gyfer eu troi allan, lle bo yna gyd-denantiaeth), mae ffigurau o'n gwasanaethau aelodaeth yn dweud wrthym bod y nifer o oroeswyr sy'n aros yn hwy na chwe mis mewn llochesau

³ <https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf> tudalen 21



wedi dyblu mewn blwyddyn⁴. Mae hyn yn amlygu'r diffyg llety symud ymlaen a'r tebygolrwydd y bydd nifer o denantiaid wedi colli eu tenantiaeth ddiogel drwy'r weithred o ffoi rhag trais.

Mae'n rhaid i'r "grŵp llywio cenedlaethol" arfaethedig gynnwys cynrychiolaeth o Gymru, er mwyn sicrhau bod trefniadau'r dyfodol yn osgoi lledu'r bwch ac anghysondeb yn y ddarpariaeth pan fydd goroeswyr yn croesi'r ffin.

Mae gwersi o Gymru hefyd yn dangos bod yn rhaid i fecanweithiau atebolrwydd a chomisiynu rhanbarthol a lleol newydd hefyd gynnwys cynrychiolaeth o wasanaethau arbenigol y trydydd sector. Dylid ymestyn cwmpas yr oruchwyliaeth a'r atebolrwydd hyn i gynnwys pob math o drais yn erbyn menywod a merched, oherwydd fel arall mae goroeswyr a gwasanaethau yn wynebu ymatebion seilo gan wasanaethau cyhoeddus a chomisiynwyr.

I liniaru'r risg hon, mae hefyd angen dull cydgysylltiedig ledled Cymru a Lloegr i sicrhau bod gan ddiodefwyr cam-drin domestig fynediad cyfartal at amddiffyniad, cymorth a chyfiawnder ar draws ffiniau. Ailadroddwn ein galwad am i Lywodraeth y DU sicrhau cyfwerthedd o adnoddau ac amddiffyniadau i oroeswyr yng Nghymru, i ddarparu cymorth ariannu diogel a chynaliadwy i gefnogi gwasanaethau arbenigol yng Nghymru fel nad oes unrhyw fenywod na phlant yn cael eu troi ymaith, ac i ddarparu tenantiaethau gydol oes i oroeswyr. Mae'r rhwydwaith o lochesau ledled y DU yn wasananaeth hanfodol sy'n achub bywyd, ac mae'n gweithredu ar draws ffiniau – mae'n rhaid cefnogi'r holl wasananaethau hyn, waeth ble mae eu lleoliad, a hynny er mwyn parhau â'r gwaith hwn o achub bywydau.

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i Lywodraeth y DU am y cyfle i roi adborth ar y mater pwysig hwn. Byddem hefyd yn hapus i ddarparu tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig bellach, pe bai angen.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch ein hymateb at:

Elinor Crouch-Puzey

Swyddog Polisi ac Ymchwil

EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk

02920541551

⁴ <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/State-of-the-Sector-2018-Eng.pdf>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA

Translation 72 WWA response to UK Gov - accommodation based support - FINAL (1).docx